Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr - Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 10 Mai 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12839

69(v3)

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

Cododd Andrew RT Davies bwynt o drefn mewn cysylltiad â chwestiynau Arweinydd Plaid Cymru i'r Prif Weinidog. Roedd o'r farn bod y cwestiynau a ofynnwyd yn ymwneud â maes polisi o fewn y Cytundeb Cydweithio, yn groes i ganllawiau ar y mater hwn a gyhoeddwyd gan y Llywydd. Cytunodd y Llywydd ac ailadroddodd ei disgwyliad na fydd cwestiynau'n cael eu defnyddio yn y dyfodol i hyrwyddo agweddau ar y Cytundeb.

2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.27

3 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Diweddariad ar Covid-19

Dechreuodd yr eitem am 14.39

4 Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Safon Ansawdd Tai Cymru 2

Gan nad oedd y Gweinidog Newid Hinsawdd yn bresennol ar gyfer dechrau'r datganiad, cynigiodd y Llywydd symud i eitem 5 cyn cymryd eitem 4. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad.

Dechreuodd yr eitem am 15.21

5 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Fframwaith Canlyniadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 15.01

6 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Etholiadau Llywodraeth Leol

Dechreuodd yr eitem am 15.58

7 Rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Rhannu Swydd a Chynorthwywyr Gweithrediaeth) 2022

Dechreuodd yr eitem am 16.28

NDM7995 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Rhannu Swydd a Chynorthwywyr Gweithrediaeth) 2022 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Mawrth 2022.

Dogfennau Ategol

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

8 Cyfnod pleidleisio

Nid oedd cyfnod pleidleisio.

Daeth y cyfarfod i ben am 16.30

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 11 Mai 2022